



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Treferthyr
Cricieth
Gwynedd
LL52 0DS**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Trefferthyr

Mae Ysgol Trefferthyr yn nhref glan y môr Cricieth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 113 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 14 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 5 dosbarth oedran cymysg.

Tua 12% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 26% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2009. Fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2010. Ers hynny, mae newid sylweddol wedi bod yn y staff gan gynnwys penodi dirpwy ym mis Medi 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgarn a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog, sy'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm i sicrhau bod disgyblion yn datblygu i'w llawn botensial ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion
- A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i tua hanner ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu ar lafar yn Gymraeg yn gynyddol hyderus. Maent yn siarad yn eglur wrth fynegi barn, yn rhannu eu syniadau'n ddeallus mewn parau ac yn dod i benderfyniadau synhwyrol ar y cyd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth, er enghraifft wrth drafod rhoi cerdyn coch i hiliaeth. Mae llawer yn dangos balchder tuag at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Maent yn mwynhau darllen ar goedd ac yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn rhugl. Maent yn trafod cynnwys testun yn ystyrion gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir a hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrion. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cyfeirlyfrau a'r we, er enghraifft wrth ddysgu am fywyd plant yn India.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn gynyddol yn y Gymraeg. Maent yn amrywio brawddegau ac yn atalnodi'n hyderus wrth ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth ailadrodd stori Eira Wen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o Llywelyn ein Llyw Olaf. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, gwefreiriau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyflwyno safbwyntiau gwahanol bobl yn ystod streic y glowyr. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae'r rhan fwyaf yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, er enghraifft wrth bwyso cynhwysion ar gyfer pobi bara fel yn stori'r Iâr Fach Goch. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn gadarn. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ac ar bapur i

ddatrys problemau, er enghraifft yn gysylltiedig â'u taith i Gaerdydd. Wrth weithredu arbrofion gwyddonol, maent yn mesur yn gywir, er enghraifft wrth archwilio sut mae arwynebedd cysgod yn newid dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu medrau TGCh. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod briodol o fedrau TGCh ac yn eu defnyddio'n bwrpasol, er enghraifft wrth recordio eu gwaith yn yr ardal tu allan ar lechen electronig. Maent yn gwneud defnydd da o'u medrau prosesu geiriau i greu pamffled i annog pobl i fynd ar wyliau i Gymru. Maent yn bwydo cyfres o gyfarwyddiadau'n gywir er mwyn symud tegan ar hyd llwybr penodedig. Yn gyffredinol, mae medrau TGCh disgyblion yng ngweddill yr ysgol yn adeiladu'n addas ar y sylfaen hon. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r we yn llwyddiannus i ymchwilio ac i greu cyflwyniadau amlgyfrwng pwrpasol, er enghraifft wrth ddysgu am y glaniad cyntaf ar y lleuad. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amser hamdden. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda, gyda'r rhan fwyaf yn ofalgar o'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae disgyblion yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau, er enghraifft fel llysgenhadon i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau fel plant. Mae aelodau'r cyngor siarter iaith yn hyrwyddo'r iaith yn bwrpasol, er enghraifft wrth sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion eraill fwynhau cerddoriaeth Gymraeg gyfoes amser cinio. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod y disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn dewis defnyddio'r iaith ar adegau anffurfiol.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw eu cyfraniad brwdfrydig tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol, fel y bad achub lleol a chyfrannu at fanc bwyd yn ystod gwasanaeth diolchgarwch yn yr eglwys. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae'r

disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrandao arnynt. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwyd. Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae staff yn sefydlu perthynas waith gynhaliol sydd yn amlwg ym mhob dosbarth. Mae hyn yn meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae bob aelod o staff yn fodolau iaith cadarn ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr sydd yn adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am yr ardal leol, er enghraifft wrth ddysgu am ddylanwad tywysogion Cymreig ar yr ardal ac astudio traddodiad morwrol yr arfordir. Mae'r ysgol yn trefnu ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi eu profiadau, gan gynnwys cerddorion lleol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifediaeth a'u Cymreictod.

Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog, sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus a'u datblygu'n unigolion hyderus a chreadigol. Maent yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd yn drwyadl gan sicrhau lefel briodol o her sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus ac yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau rhediad da i'r sesiynau. Maent yn gosod amcanion clir ar gyfer gwersi ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses o greu a chytuno meini prawf llwyddiant. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rôl gynyddol yn eu dysgu. Mae'r athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gwersi ar sut i wella eu gwaith. Er hyn, nid ydynt yn defnyddio asesu ffurfiannol i wella gwaith disgyblion yn ddigon cyson ar draws yr ysgol. Anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymateb i sylwadau athrawon ar eu gwaith ysgrifenedig ac i wella eu gwaith eu hunain.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus. Mae pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol. Mae'r athrawon yn cynllunio ar y cyd yn gelfydd er mwyn sicrhau datblygiad a dilyniant mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff yn gwneud defnydd synhwyrol a hyblyg o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae'r cynllunio yn systematig ac yn helpu athrawon i gynllunio tasgau sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o fewn sesiynau iaith a mathemateg. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau iaith mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu'n effeithiol er mwyn i ddisgyblion gymhwyso'u medrau'n rheolaidd.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgarn a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a theuluol, sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg ar barch a chwarteisi. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol bron pob un o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau personol unigolion yn gyson a chaiff disgyblion eu canmol ar y 'Bwrdd Brolio'. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrwyr ac ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â dathlu gwahaniaethau rhwng pobloedd a'i gilydd, yn hytrach na meithrin casineb. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau dynol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd helaeth o ymwelwyr i ehangu profiadau creadigol y disgyblion, er enghraifft gydag artistiaid lleol yn hybu eu dealltwriaeth o wahanol arddulliau celf, fel defnyddio deunyddiau naturiol glan y môr i greu darlun. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn cyngherddau a chystadlu mewn Eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder a'u gallu i gydweithio mewn tîm yn llwyddiannus. Er hyn, prin yw cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

Mae'r athrawon yn defnyddio systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i fesur cynnydd disgyblion ac er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i adnabod ac i ddarparu ymyrraeth briodol ar eu cyfer. Enghraifft dda o hyn yw'r ymyrraeth llwyddiannus i ddatblygu medrau mathemateg y pen grŵp o ddisgyblion penodol. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn fanwl, yn cynnwys targedau clir ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan athrawon a chynorthwyr sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a chânt eu cynnwys yn llawn wrth adolygu cynnydd.

Mae cysylltiadau cryf gan yr ysgol â nifer o asiantaethau arbenigol, sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a'u rhieni. O ganlyniad, mae unigolion yn cael gofal ac arweiniad buddiol. Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da ac i annog presenoldeb cyson.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae dulliau cyfathrebu priodol yn sicrhau bod rhieni yn cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae'r cysylltiadau amrywiol hyn yn cryfhau ymdeimlad y disgyblion o berthyn i'r gymuned, ac yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hardal leol. Enghreifftiau da o hyn yw ymweliad staff o'r bwyty lleol er mwyn cynnal sesiynau coginio a chyfraniad disgyblion tuag at godi arian at offer cymorth cyntaf ar gyfer y neuadd goffa.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol ac yn hybu cymuned glos, gynhwysol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn wedi ei seilio ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn glir i'r holl staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi penodi sawl aelod newydd o staff yn ddiweddar ac maent wedi llwyddo i greu ethos cadarnhaol o gydweithio llwyddiannus fel tîm mewn amser byr. Mae ganddi berthynas gadarn â rhieni wrth hybu diwylliant drws agored a chydweithredol sy'n llwyddo i sicrhau cefnogaeth fuddiol.

Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu datblygu'n effeithiol a chydwybodol. Mae'r athrawon ymroddedig a brwdfrydig yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau, a chreu profiadau eang, ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae hefyd yn gymorth llwyddiannus i leihau baich gwaith athrawon.

Mae gan y pennaeth weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer athrawon a chymorthyddion sy'n gyfan gwbl seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'n hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion ac ar waith y dosbarth. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth hon yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella medrau llythrennedd, mathemateg a lles. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn effeithiol iawn drwy annog cydweithio gydag ysgolion eraill, rhannu gwybodaeth yn fewnol yn dilyn ymweliadau neu hyfforddiant a datblygu agweddau o'r cwricwlwm trwy rwydweithiau llwyddiannus gydag ysgolion cyfagos. Mae'r staff hefyd yn ymweld â nifer o ysgolion i arsylwi ar enghreifftiau o arfer dda. Esiampl dda o hyn yw'r ymweliadau niferus a wnaed cyn datblygu ac ailstrwythuro'r ddarpariaeth ym Mlwyddyn 2 a 3 sy'n pontio rhwng y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, fel craffu ar waith, arsylwi gwersi a chyfraniad gwerthfawr y corff llywodraethol. Mae gan yr ysgol drefniadau monitro rheolaidd a chynhwysfawr sy'n

arwain yn bwrpasol at adnabod y camau nesaf i wella yn ogystal ag effaith gweithdrefnau presennol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun gonest a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen sylw ymhellach. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldebau am agweddau amrywiol o feysydd cwricwlaidd a blaenoriaethau gwella. Trwy gydweithio ag arweinwyr yr ysgol, arsylwi ar wersi a chynnal teithiau dysgu perthnasol, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanarfarnu a monitro'r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol i wneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol pwrpasol i waith yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r llywodraethwyr yn herio'n gadarnhaol trwy wneud awgrymiadau ynglŷn â nifer y blaenoriaethau sydd yn gyraeddadwy a realistig yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn hybu llais y disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw iddynt gynnwys aelodau o'r cyngor ysgol yn y penodiadau staffio diweddar a chefnogi eu gwaith wrth i'r disgyblion greu a chyflwyno pamffled ar fwlio i holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r swyddog gweinyddol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn fedrus. Maent yn gwneud penderfyniadau ariannu effeithlon er mwyn ymateb i anghenion yr ysgol. Mae cynllunio ariannol ar sail y gyllideb flynyddol yn fanwl ac effeithiol, ac yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae cyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir, ac yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol, er enghraifft trwy ddarparu adnoddau pwrpasol i wella medrau mathemateg y pen disgyblion penodol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau llythrennedd a mathemateg ac i ddatblygu lles disgyblion yn llwyddiannus.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/06/2018